9 Cofrestrau-r Plwyf

Nid anniddorol i'r darllenydd fydd hanes byr o gofrestrau plwyf yn gyffredinol. Rhoddwyd y gorchymyn cyntaf i gadw cofrestrau bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau ymhob plwyf ar 28 Medi, 1538 gan Thomas Cromwell, rhaglaw Harri VIII. Rhaid oedd gwneud pob cofnodiad ar Suliau ym mhresenoldeb wardeniaid yr eglwys, a'r ddirwy am esgeuluso hyn oedd 3/4. Ail-gyhoeddwyd y gorchymyn hwn yn fwy pendant yn 1558. Er hynny, nid oedd yn cael ei gario allan yn rheolaidd ac yn 1597 gorfodid pob plwyf, ar ei gost ei hun, i sicrhau llyfrau cofrestru o femrwn, a'r enwau o'r hen lyfrau (papur) o 1538 ymlaen i'w hysgrifennu

Fig. 14 *Plas Uchaf, Niwbwrch* yn 1905

ynddynt. Yr oedd y llyfr cofrestru i'w gadw mewn cist ddiogel, a dan agoriad iddi, **/79/**un i'r offeiriad ac un i'r wardeniaid, a chopi cywir i'w anfon bob blwyddyn, o fewn mis ar ô1y Pasg, i'r cofnodion esgobol. Yn 1603 hysbyswyd bod yr offeiriad a

wardeniaid yr eglwys, o hynny ymlaen, i ardystio ar waelod pob dalen o'r copiau a'u hanfon yn flynyddol i'r esgob.

Gwnaed i ffwrdd â chyfundrefn cofrestru 1538 a 1597, gan ddeddf o eiddo senedd Barebones (1653), ac yn ô1 honno yr oedd yn angenrheidiol i bob plwyf ethol "Cofrestrydd Plwyfol" bob tair blynedd o Fedi, 1653, ond dychwelwyd yn ô1 i'r hen drefn pan ddaeth Siarl II yn frenin Lloegr (1660). O 1653 i 1660 genedigaethau, nid bedyddiadau, oedd i'w cofrestru, ac yr oedd priodasau i'w gweinyddu ym mhresenoldeb Ustusiaid Heddwch.

Yn ô1 cyfraith a ddaeth i rym ar 25 Mawrth, 1667, rhaid oedd gwisgo'r meirw mewn gwlân cyn eu claddu, er mwyn symbylu cynhyrchu gwlân yn y wlad; a pharhaodd y gyfraith hon mewn grym hyd 1814 yn Lloegr.

1752. Sylwer bod yr "Hen Ddull" yn diweddu ar 2 Medi, 1752, a chyfrifwyd drannoeth yn 14 Medi 1752 ("Dull Newydd") Hyd 1752 dechreuai'r flwyddyn ar 25 Mawrth; dechreuodd dydd Calan, 1752 ar Ionawr.

Daeth llyfrau argraffedig i'w harfer yn lle'r hen gofrestrau i gofnodi priodasau, yn ô1 Deddf Priodas Arglwydd Hardwicke yn 1753. Bellach, yr oedd pob priodas i gael ei rhagflaenu gan gyhoeddiad o'r gostegion neu gan drwydded esgob i briodi, a honno i'w gweinyddu yn yr eglwysi neu'r capeli hynny yn unig yr oedd gostegion priodas wedi arfer cael eu cyhoeddi ynddynt.[1]

Oherwydd y rhyfeloedd rhwng Prydain â'r America (1776-1783) a hefyd â Ffrainc, yr oedd ein gwlad wedi myned yn dlawd iawn. At hynny, ychwanegwyd at galedfyd ein pobl gan gynhaeafau gwael am nifer o flynyddoedd yn ddilynol. I gyfarfod â'r diffyg yn y Drysorfa Genedlaethol, gosodwyd toll o 3d. am gofnodiad o bob bedydd, priodas a chladdedigaeth, a ,5 oedd y dirwy am beidio â'i dalu. Rhag digio'r plwyfolion, byddai'r offeiriaid yn aml yn talu'r doll eu hunain. Diddymwyd y gyfraith hon yn 1794.

Ar 28 Mehefin, 1812 rhoddodd *Rose's Act* ddiwedd ar yr hen gofrestrau, a bu rhaid cael llyfrau argraffedig *ar wahan* i fedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau o ddechrau 1813. Gwnaed ymofyniadau swyddogol â'r holl offeiriaid yn 1831 er gwybod dyddiad, cyflwr, a nifer y cofrestrau plwyfol dan eu gofal, a cheir crynhoad o'u hatebion mewn *Llyfr Glas* a gyhoeddwyd yn 1833. Yn ô1 y *Civil Registration Act* (1836) sefydlwyd swyddogion gwladol i gofnodi genedigaethau, priodasau a marwolaethau, ac i'r *Registrars* hyn gorchmynnir rhoddi yr hysbysrwydd angenrheidiol.

Y cofrestrau plwyfol hynaf ym Môn ydyw eiddo Trefdraeth, Llansadwm a Phenrhoslligwy - y tri yn dechrau yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

/80/Yn Niwbwrch ceir y cofnodiad cyntaf yn 1721, a hynny mewn cofrestr o 94 tudalen, yn mesur 12**3**" [31cm] wrth 7**3**" [18cm]. Y tu mewn i'w gaead ymddengys yn ysgrifenedig a ganlyn:

1 Hyd 1806 nid oedd yr un briodas yn gyfreithiol, o ba enwadau bynnag y byddai y personau a briodid, oni chymerai le yn eglwys y plwyf - deddf a symudwyd gan *Marriage Act*, 6 & 7 Wm. IV. cap. 85.

"This Book was bound in January 1 /1722 by the orders of the /
Reved Mr. William Williams A M /Rector of Newborough
And Willm Williams Churchwardens Ibidm
Jno Thomas
Mr. Richard Barry, Bookbinder

Tabula Publica /sive/ Regestum Parochiale / Ecclesiae /
Sti Petri apud Novo-Burgum / Monense compactum anno
1722 / Gulielmo Williams Rector
Gulielmo Williams
&
Johanne Thomas AEdilibus

Thomas Rowlands / Clerk of the / parish of Newborough.
Tabula / Baptismatum Matrimonierum / & / Sepulturarum
habit in / Ecclesia & Parochia Sti Petri / apud Novo Burgenses."

Yn dilyn yn y gofrestr ceir cofnodiad o'r bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau yn eu trefn amseryddol, a'r cwbl ar dudd. 1-11 wedi eu hysgrifennu mewn Lladin; yn gyffredin, *enwau'r* personau yn unig a roddir; eithriad yw cael enw'r preswylfod. O hynny ymlaen yn Saesneg y mae'r cyfan ond, hyd tud. 22, anaml y ceir enw preswylfod na gwaith y personau enwir. Deg gwahanol lawysgrif sydd yn y gofrestr hon:-

(a)	1722-7, 1728-9,	llaw ysgolheigaidd;
(b)	1727-8,	llaw gron;
(c)	1729-33,	llaw fechan, glos a thwt;
(ch)	1733-44,	tebyg i (b);
(d)	1744,	braidd yn flêr;
(dd)	1744-6,	llaw glos a thwt;
(e)	1746-7,	tebyg i (a) ;
(f)	1747-75,	llaw gron a chlir iawn ;
(ff)	1775-77,	llaw fawr ac anllythrennog;
(g)	1777-8,	llaw fach a thwt.

O 1743 i 1746, pan oedd Evan Owen yn gurad yno, ymddengys enw preswylfod a gwaith neu alwedigaeth y personau (h.y., y gër neu'r tad), ond ar ô1 hynny (hyd tud. 88) *weithiau* y ceid y wybodaeth yma. Ar dudd. 89-94 fe ysgrifennwyd, o bryd i bryd, gopiau o rybuddion a rheolau ynglín â'r cofrestrau plwyfol, ynghyda cyfrifon wardeniaid yr eglwys &c.[2]

2 Am y rhai hyn gweler tt. 93 *et seq.*

Cedwid llyfr argraffedig i gofrestru priodasau o 1754 i 1812, ac un arall o 1813 ymlaen. Bedyddiadau a chladdedigaethau yn unig **/81/**a geir yn yr ail gofrestr (1778-94), a'r un fath yn y drydedd (1794-1811). Ymddengys y cedwid y cofnodion (1794-97) ar ddalennau papur rhydd, ond copiwyd y rhai hyn i'r gofrestr ar ô1 hynny.

Cyn dyfod o'r llyfrau argraffedig i gofrestru, byddai'r offeiriad plwyfol weithiau yn nodi ar ymyl y ddalen rai ffeithiau diddorol ynglín â phersonau neu'r plwyf; dyma'r prif rai yng nghofrestrau Niwbwrch:

21 Apr. 1723.	Tho. fil. Tho. Meredeth de Celliniog gent, Eliz. Jones, Guliel. fil. Tho. Rowland. These three were drowned on Easter Eve in Tal y voil ferry botte.
11 July 1725.	here R. Parry Clk began to be parish Clerk of Newburgh.
10 July 1743.	Owen Williams clerk of ye Parish of Llanbedr Newborough.
2 Aug. 1743.	Buried Robert Dorton a poor Irish man.
15 Jan. 1744.	Buried Ellen Burck a poor Irish woman who was drowned in Malltraeth.
31 Jan. 1748.	Buried Owen Jones of ye Parish of Clynnog, a man of a 105 year old who had lost his sight and almost his hearing.
9 June 1749.	Buried John Jones a youth killed by the falling of a heap of sods upon him.

Communicants.	1755	1757	1758	1759	1766	1777
Easter Eve	017	009	010	011	010	017
Easter day	122	124	100	121	084	129
Low Easter	055	065	060		060	100
Total		198	170		154	246

Private communicants	002
	196

24 Oct. 1783.	the tax (3d.) to be paid from this day.
17 Dec. 1785.	Buried Rev. Mr. Lewis Pugh curate drowned with his wife coming from Caernarfon.
19 Mar. 1786.	Buried Ann, wife [of] Rev. Mr. Pugh, Drowned at Talyvoel.[3]
20 Mar. 1787.	Buried Edward Roberts who left his fortune to Owen Lewis.

Claddwyd nifer fawr yn nechrau 1731 (15 yn Ionawr, 5 yn Chwefrol a 4 ym Mawrth) ac at ddiwedd 1779 (4 ym Medi, 8 yn Hydref a 9 yn Nhachwedd).

3 Mae'n debyg mai ym mhen tri mis ar ô1 suddo'r ysgraff y daeth ei chorff i'r lan.

Yn y cofrestrau argraffedig nid oedd fawr le ond i'r enwau moelion, er hynny, ceir y nodiadau hyn:/**82**/

6 May,1802. Buried Robert Thomas from Enlli.
17 May,1802. Buried David William David - both drowned
15 Feb, 1805. Buried William Prichard Cefn Mawr drowned at Malltraeth.
31 May,1809. Buried John Jones and William Thomas Aberdaron who [were] drownd on Caernarvon Bar.
6 Nov,1833 A young man cast ashore from a schooner wrecked on the Bar, name unknown.
29 Nov,1833. A person found drowned - name unknown.
26 June,1836. Baptised Hugh aged 23 years son of Hugh Davies and Mary Hughes, Cae Mawr (parish of Cerrig Ceinwen), labourer.

Ar wahan i gofrestrau'r plwyf anodd, onid amhosibl, yw cael unrhyw wybodaeth y gellir dibynnu arni ynglín â nifer y plwyfolion, eu teuluoedd a'u galwedigaethau. I'r amcan hwn nid yw y cofrestrau o fawr werth ond o 1734 ymlaen. Hyd yn oed yn y cyfnod hwn, ceir nifer o flynyddoedd lle ni roddi'r galwedigaeth y person o gwbl, neu ddim ond ambell un, sef 1734-43, 1778-82, 1785-87; felly hefyd yng nghofrestr y priodasau a'r claddedigaethau o 1813 i 1837, ond mae cofrestr y bedyddiadau yn llanw'r bwlch am y cyfnod diwethaf hwn. O Ebrill 1811 hyd Ionawr 1813, nid oes cofrestr am na bedydd na chladdedigaeth yn y plwyf; ond mae'n rhyw gysur fod ar gael gofrestr bedyddiadau Capel y Methodistiaid Calfinaidd yn y pentref o Fedi 1809 ymlaen, i wneud i fynny rhyw gymaint o'r diffyg.

Wrth gwrs, offeiriaid y plwyf oedd yn gyfrifol am yr esgeulustra hwn, a mawr yw ein dyled i'r rheithor Owen Jones[4] am y wybodaeth fanwl a rydd ef (1743-77). Ond efallai bod y rheswm canlynol yn cyfrif am hyn. Yn 1743, anfonwyd cylchlythyr o rybudd gan y Parch. John Owen, Ll.B., Canghellor Esgobaeth Bangor, at y rheithor a'r wardeniaid yn gorchymyn bod cofrestrau y plwyf i gynnwys manylion llawnach ar ôl 25 Mawrth, 1743, h.y., ynglín â bedydd rhaid rhoddi enw, cyfenw (*surname*), trigfan a gwaith y tad, ynghyda enw'r fam, yn ychwanegol i enw'r plentyn a fedyddiwyd, ynglín â phriodas dylid cynnwys enw, cyfenw, safle swydd neu waith, trigfan a phlwyf y mab a'r ferch, gan nodi am y ferch a'i gwyryf a'i gweddw ydoedd, ac, os y blaenaf, gofynid am enw ei thad, ei gyfenw a'i drigfan, ac ai drwy drwydded neu ostegion eu priodwyd; hefyd, ar farwolaeth, rhaid ysgrifennu am yr ymadawedig ei enw, gyfenw, drigfan, safle swydd neu waith, a hefyd a'i llanc neu ferch di-briod, priod, gweddw neu faban.

Pedair blynedd yn ddiweddarach, cawsant ffurflen i'w llenwi i ardystio fod hwn-a-hwn wedi derbyn cymundeb yr eglwys, ac un arall i'w llenwi pan yr

4 Mab ydoedd i'r Parch. John Roberts, Penychain, a Chanon o Fangor, a briododd â Catherine, merch Thomas Vincent, rheithor Llanfachraeth, Môn, - *Pedigrees*, gan J. E. Griffith, tud. 336.

esgymunid aelod o'r eglwys. Yr oedd y /**83**/manylion am y rhai hyn i'w hanfon i'r llys eglwysig ym Mangor yn rheolaidd.

Tipyn yn anfoddhaol yw cofrestr bedyddiadau a chladdedigaethau o 1787 i ddechrau 1811, oherwydd am bob un o'r blynyddoedd hyn, yn lle croniclo pob bedydd a chladdedigaeth yn eu trefn amseryddol, ceir rhestr o'r holl fedyddiadau am y flwyddyn yn cael ei dilyn gan restr o'r holl gladdedigaethau am yr un flwyddyn. Gyda'r gofrestr hon hefyd gwelir dwy ddalen bapur, ac arnynt restr bedyddiadau a chladdedigaethau 1794-97, y rhai hynny wedi eu copio i'r gofrestr femrwn. Oddi wrth hyn, teg yw casglu mai unwaith yn y flwyddyn yr ysgrifennid yr enwau yn y gofrestr hon - o fewn mis as ôl1y Pasg, pan fyddai rhaid anfon copi i'r Cofrestrydd Esgobol. Mor hawdd fuasai gadael allan enw neu ddau !

Yn hytrach na rhoddi copi llawn o gofrestrau'r plwyf (fel ag y maent) i'r darllenydd, amcenir cyflwyno mewn dull arall bron yr holl wybodaeth sydd o werth hanesyddol ynddynt.

I gychwyn, dyma'r nifer a fedyddiwyd, a briodwyd ac a gladdwyd rhwng 1721 ag 1837:

NIFER BEDYDDIADAU, PRIODASAU A CHLADDEDIGAETHAU (1721-1837)[5]

	Bed.	Pr.	Cl.			Bed.	Pr.	Cl.		
			Oedol-						Oedol-	
			ion	Plant					ion	Plant
1721	2	1			1735	6	4	8	5	
1722	17	9	7		1736	19	6	14	2	
1723	13	2	11		1737	18	3	14	2	
1724	11	6	10		1738	7	7	22	2	
1725	20	4	14		1739	17	4	6		
1726	8	3	13		1740	18	5	13		
1727	16	4	21		1741	14	2	14	1	
1728	5	4	33		1742	13	1	6		
1729	9	6	27		1743	20	5	17		
1730	15	7	16		1744	12	5	8	1	
1731	18	3	36		1745	17	5	11	4	
1732	13	8	9		1746	10	5	8		

5 Awgrymir mai un ffordd i gael amcangyfrif o boblogaeth plwyf lle bo ynddo ond un eglwys blwyf, yw cyfrif rhif bedyddiadau deng mlynedd ac ychwanegu gymaint 3**2** gwaith. Yn ôl hyn buasai'r boblogaeth:-

yn 1721 - 1730 yn 406 ar gyfartaledd,
" 1731 - 1740 " 490 "
" 1741 - 1750 " 557 "
" 1751 - 1760 " 560 "
" 1761 - 1770 " 560 "
" 1771 - 1780 " 732 "

1733	10	6	12		1747	19	4	15	2	
1734	14	1	13	2	1748	20	1	7	11/**84**/	
1749	16	2	18	1	1793	28	16			
1750	18	3	15	4	1794	19	4	10		
1751	19	7	8	5	1795	21	4	12		
1752	15	3	6	2	1796	24	4	7		
1753	22	3	7	5	1797	25	5	16		
1754	14	5	6	2	1798	29	3	15	4	
1755	18	2	10	4	1799	14	3	12	3	
1756	17	6	3	2	1800	23	4	1		
1757	15	4	4	6	1801	17	1	8	1	
1758	14	1	10	3	1802	18	2	11		
1759	10	11	8	3	1803	30	6	12		
1760	16	1	7	2	1804	18	4	23	1	
1761	16	5	16	2	1805	26	6	10		
1762	19	2	9	3	1806	18	4	14		
1763	12	5	17	1	1807	18	3	5	5	
1764	11	9	6		1808	31	5	4	BMC[6]	
1765	15	5	10	1	1809	12	5	22	2	
1766	12	3	10	4	1810	30	4	4	2	2
1767	15	6	7	5	1811	5				
1768	20	7	6	2	1812	5				
1769	19	4	10	18	1813	24	5	9	4	4
1770	21	4	10	6	1814	17	4	8	4	10
1771	18	2	4	3	1815	22	3	9	9	7
1772	28	4	3	6	1816	17	6	15	4	5
1773	10	3	3	3	1817	22	5	6	9	5
1774	10	7	12	3	1818	18	7	8	5	5
1775	26	9	16	8	1819	18	9	5	1	5
1776	29	2	7		1820	14	4	17	4	2
1777	21	5	29	2	1821	20	7	4	3	1
1778	27	4	6	1	1822	15	10	9	2	4
1779	23	6	10	24	1823	18	7	14	1	1
1780	17	1	17	8	1824	15	7	8	4	2
1781	22	5	13	9	1825	26	11	9	3	
1782	8	6	10	2	1826	21	8	23	16	2
1783	12	7	13	3	1827	22	5	14	6	1
1784	15	5	10	3	1828	25	2	14	5	2
1785	14	7	24		1829	21	12	18	11	5
1786	24	1	17		1830	17	9	20	6	
1787	18	8	9	1	1831	25	5	4	3	3

6 Llyfr Bedydd Capel y Methodistiaid Calfinaidd.

1788	9	7	6		1832	20	6	4	4	6
1789	32	7	14	7	1833	22	5	15	11	7
1790	24	6	5	3	1834	22	8	10	6	4
1791	22	6	4	3	1835	25	6	11	8	5
1792	20	5	4	12	1836	25	9	10	2	4
					1837[7]	5	3	7	4	7

/85/Gwelir bod nifer y bedyddiadau yn cadw'n weddol wastad ar hyd y cyfnod. Lled debyg ydyw gyda'r priodasau, ond dipyn mwy o "i fyny ac i lawr" yn nifer y claddedigaethau. Ganwyd gefeilliaid 23 o weithiau rhwng 1769 a 1836; yn ystod y cyfnod diwethaf hwn - 69 o flynyddoedd - ganwyd 42 o blant di-briodas (plant "siawns") yn y plwyf, sef ar gyfartaledd, un bob blwyddyn a hanner.

Ni wyddis y rheswm fod cymaint o fabanod a phlant bychain wedi marw yn 1769, 1779 a 1826, nac ychwaith o rai mewn oed yn 1731, 1777 a 1785. Fe nodir yn y gofrestr mai y frêch wen oedd y prif achos yn 1814 a 1815; bu dau farw o *convulsion* yn 1815 ac un oherwydd *chincough* (brêch yr ieir) y flwyddyn ddilynol. Anodd credu bod unrhyw flwyddyn wedi myned heibio heb i un plentyn o leiaf farw yn y plwyf. Lle ceir gwagle am ambell flwyddyn, hawdd tybied i'r offeiriad esgeuluso gwahaniaethu rhwng rhai mewn oed a phlant ieuainc.

O 1813 ymlaen, dengys y gofrestr oed pawb a gladdwyd, a chyfartaledd oedran y rhai a fu farw dros ddeuddeng oed oedd 57. Lle iach i fyw ynddo yw Niwbwrch, a dywedir gan fwy nag un meddyg mai'r llecyn iachaf yn y plwyf yw rhwng Rhedyn-coch-bach a Traeth-bach, lle y tybir y cyferfydd tair awel ! Fel y sylwyd eisoes, ychydig o bobl a fu feddi yn yr ardal.

Yn 1744 y ceir y cofnodiad cyntaf o briodas trwy gyhoeddi gostegion. Hyd 1753, cyfrifid tri math ar briodas yn gyfreithlon ym Mhrydain Fawr, sef:

(a) Priodas gyhoeddus mewn eglwys yn dilyn darllen gostegion; gellid hepgor y gostegion drwy dalu swm o arian am drwydded.

(b) Priodas ddirgelaidd gan offeiriad eglwysig heb ostegion na thrwydded.

(c) Priodas drwy gydsyniad syml y ddeuddyn, a roddid trwy air llafar neu ysgrifen, yn cynnwys addewid yn cael ei ddilyn gan gywelyaeth. Mae'n debyg mai yn y modd hwn y priodid llawer yng Nghymru a Lloegr hyd ei ddiddymiad, a diddymiad (b), gan Ddeddf Priodas Hardwicke yn 1753.[8]

Priododd llawer o ferched y plwyf â dynion genedigol o blwyfi eraill. Wele nifer y gwŕr hyn, a'u plwyf genedigol, o 1754 i 1836:

Llangeinwen	49	Llangadwaladr	5	Llanynghenedl	2
Trefdraeth	13	Pentir (C)	4	Llanedwen	2
Llanidan	12	Llanfair Cwmwd	4	Bangor (C)	2
Llangristiolus	10	Amlwch	3	Llanddaniel	2

7 Hyd ddiwedd mis Mehefin.

8 *Hanes Mon*, gan E.A.W. tud. 262.

Llanbeblig (C)	9	Llanfaelog	3	Llanfechell	1
Aberffraw	7	Llanfeirian	3	Llanwnda (C)	1
Llanddeiniolen (C)	5	Cerrigceinwen	3	Llanllyfni (C)	1
Llangwyfan	5	Rhosgolyn	3	Llaneugrad	1
Llandwrog (C)	5	Caergybi	2	Gwredog	1
/86/Eglwysael	1	Ynyscynhaiarn (C)	1	Maentwrog (M)	1
Llanbeulan	1	Aberdaron(C)	1	Llantrisant	1
Trewalchmai	1	Llangefni	1	Llandyfrydog	1
Bodedern	1	Nefyn(C)	1	Llanllyfni (C)	1
Penrhoslligwy	1	Llanfihangel-		Caerhun (C)	1
Llangoed	1	ysceifiog	1	Llanfairyn-	
Llanwnda (C)	1	Llangaffo	1	neubwll	1
Llechcynfarwy	1	Llechylched	1	Llanfihangel (?)	1

Ar ô1 1777 ni chofnodir galwedigaeth y priodfab. Dyma nifer galwedigaethau y "gw r dieithr" rhwng 1754 a 1777, er bod yna rai bylchau hyd yn oed yn y cyfnod hwn: Llafurwyr 30, amaethwyr 3, gwehyddion 3, rhydd-ddalwyr 2, gwr bonheddig l, cigydd 1, morwr 1, cylchwr 1, crydd 1, gwerthwr ceriach 1. Y tebygrwydd yw bod y rhan fwyaf ohonynt wedi myned â'u gwragedd gyda hwy i leoedd eraill.

Ni enwir tlotyn, fel y cyfryw, yn y cofrestrau hyd at ddiwedd 1783.[9] Fe gofir mai o'r 3 Hydref y flwyddyn honno y dechreuwyd talu 3*d.* o dreth ar bob cofnodiad yng nghofrestrau'r plwyf. Mae'n bosibl yr esgusodid talu'r dreth hon ynglín â thlotyn, ac mai dyna paham y nodwyd y ffaith honno o 1783 ymlaen. Gwir y diddymwyd y gyfraith hon yn 1794, ond gresyn meddwl i'r gwarthnod hwn gael ei gyplysu âg enw'r truan hyd yn oed ar ô1 ei farw.

Rhwng 1783 a 1830, fe enwir 51 ohonynt, ac ohonynt ceir 6 â phlant iddynt yn cael eu bedyddio; claddedigaethau yw'r gweddill, sef 4 baban, 15 dyn a 17 dynes o Niwbwrch, dau ddyn yn perthyn i blwyfi Llangeinwen a Phenmynydd, ynghyda chwe merch yn enedigol o'r Aberffraw, Llangeinwen, Penmynydd, Llangaffo, Bodedern a Threfdraeth.

Yn dilyn ceir rhestr o nifer galwedigaethau y plwyfolion - bob pum mlynedd - o 1734 i 1837. Nid yw yr un dyn yn cael el gynnwys ond unwaith yn y ffigurau a hynny yn y flwyddyn yr ymddengys ei enw (gyda'i alwedigaeth) gyntaf yn y gofrestr. Yn gyffredin, gellir synied bod y cyfryw un yn byw am ryw 30 mlynedd yn y plwyf ar ô1 hynny. Dylid cynnwys dwy ferch yn y rhestr galwedigaethau, sef Catherine Williams, siopwraig ag yn ddibriod, a gladdwyd yn 1771, a Jane Parry, bydwraig, a fu farw yn 1809.

Yn nechrau'r ddeunawfed ganrif yr enw (mewn Lladin) ar swyddd clochydd oedd *sacrista.* Claddwyd Richard Hughes *sacrista* yn 1725. I'w ddilyn, dewiswyd Richard Parry fel "clerc plwyf Niwbwrch", ac yn ddiweddarach John Williams,

9 Unwaith cyn hyn, yn 1752, y cyfeirir at ddyn, a hwnnw o'r enw Richard Evans, fel dyn tlawd - "a poor man."

Owen Williams (hyd 1748), William Owen a Rowland Williams, yr olaf a enwir yn cael ei alw yn glochydd yn 1787. **/87/**

	1733-1737	1738-1742	1743-1747	1748-1752	1753-1757	1758-1762	1763-1767	1768-1772	1773-1777	1778-1782	1783-1787
Amaethwr			10		3	3	9	8	9		4
Asiedydd			2	2				1			
Beili							1				
Capten llong											
Cariwr											
Cariwr matiau				2							2
Cariwr melin						1	1				1
Cigydd			1	1			3	1	1		1
Clytiwr esgidiau [10]				1			1				
Craswr											
Cribwr gwl>n											
Crydd			1	7		2		1	1	1	3
Crythor						1	1			1	
Cwningwr								1			
Cylchwr			2		1		3	1			
Cyllidydd [11]	2		1		1		1	1			
Chwarelwr											
/88/Dyrnwr											
Eurych											
Glowr			1								
G^f (haearn)							2	1		1	1
Gwehydd			2	3			2	3	1		
Gwehydd matiau				1							
Gwehydd rhwydau			1								
Gwerthwr ceriach [12]				2		1	1	1			
Gwneuthur wr ysgubau											
G ë r	1										

10 "cobbler" yn Cofrestr y Plwyf
11 Excise officer
237 h.y. pedlar

bonheddig											
Gwydrwr						1					
Llafurwr			9	12	9	15	12	16	12	1	4
Llechdowr											1
Lledrwr[13]			1	4	2			1	[14]		
Llifwr											
Llyfr-rwymwr											
Melinydd			1			1					
/**89**/Menygwr									1		
Milwr [15]						1	1				
Morwr				2		1		3	2		
Mwnwr											
Plethwr gwellt [16]							1				
Pobydd						1					
Porthwas			1				1	1			
Pysgotwr				1							
Rhaffwr [17]				1			1				
Rhydd-ddaliwr [18]			4	6	2[19]	1		1			
Saer coed	1		4	1	1	1	1	2			
Saer maen			1			1		1	1		2
Saer melinau											
Saer troliau											
Siopwr							1	2	1	1	
Tafarnwr			1								
Teiliwr			2	4		1	1				2
Torrwr											
T^wr											
Ysgolfeistr											1

	1788-1792	1793-1997	1798-1802	1803-1807	1808-1812	1813-1817	1818-1822	1823-1827	1828-1832	1833-1837
Amaethwr	3	3	2			8	5	8	8	7
Asiedydd						1				
Beili										

13 “corvicer” yn Cofrestr y Plwyf hyd 1756 ac yn 1795; “cordwainer” o 1756 hyd 1817.
14 “leather cutter” yn Cofrestr y Plwyf.
15 Yn cynnwys *militia*
16 “straw-joiner” yn C.P.
17 “hair-rope maker” yn C.P.
18 “yeoman” yn C.P.
19 “freeholder” yn C.P.

Capten llong								1		
Cariwr										2
Cariwr matiau										
Cariwr melin		1								
Cigydd										
Clytiwr esgidiau		1			1					
Craswr			1							
Cribwr gwl>n			1							
Crydd			1	3	1	3	4	2	1	
Crythor										
Cwningwr								1		
Cylchwr	1	1	1							
Cyllidydd	1	2								
Chwarelwr								1		
Dyrnwr		1								
Eurych	1									
Glowr								1		
G^f (haearn)				1	2			1	1	
Gwehydd	2	2	2			2	1		1	
Gwehydd matiau										
Gwehydd rhwydau		1								
Gwerthwr ceriach		1								
Gwneuthurwr ysgubau			1							
Gër bonheddig										
Gwydrwr										
Llafurwr	2	17	11	12	5	22	12	8	9	8
Llechdowr	1	1								
Lledrwr		1			2	1				
Llifwr										1
Llyfr-rwymwr									1	
Melinydd	2	1					1	1		
Menygwr										
Milwr			2	1		1	1			
Morwr	1	1	1	2	3	8	4	6	3	2
Mwnwr				1		1				
Plethwr gwellt										
Pobydd				1						

Porthwas		1	1	1	2					
Pysgotwr										
Rhaffwr										
Rhydd-ddaliwr										
Saer coed	1	2								
Saer maen	1	2	1			1			1	4
Saer melinau					1					
Saer troliau	1	1		1						
Siopwr	1	1	1	1			1	1	1	2
Tafarnnwr		1			1	2				
Teiliwr	1	1			1	1		2	1	1
Torrwr										1
T^wr		1		1						
Ysgolfeistr									1	

/90/NODIADAU AR RAI O'R GALWEDIGAETHAU.

Y Gwaith Morhesg.

Nid oes sicrwydd pa bryd y dechreuodd trigolion y plwyf fanteisio ar y morhesg a dyfai yn eu tywyn helaeth i'w blethu'n fatiau &c.

"Hefyd diwydwyr rhyfedd –-gwnant 'sgubau
Matiau, tannau, tynwedd,
Clustogau, nid gau eu gwedd,
I weini i holl Wynedd." [20]

Er bod ar hyd y canrifoedd ddigonedd o forhesg i'w gael yn rhad neu am ddim yng ngorllewin Môn, ac ar fordiroedd siroedd Fflint a Meirion, eto, yn Niwbwrch yn unig y defnyddid y morhesg i wneud matiau, clustogau, tannau neu raffau o bob math, ysgubau &c.

Cyn i Gorseddygau gael ei hamgau a'i sychu (oddeutu 1815), tyfai'r hesg yno mewn cyflawnder, a cheid plethwyr ym mhob ardal o fewn cyrraedd i'r defnydd hwn. Pan aeth hesg y gors yn brin, hwyrach fod y plethwyr hyn wedi troi i blethu morhesg megis y buasent gynt yn plethu hesg y gors. Ond yn ô1 rhestr galwedigaethau y plwyfolion gwelir bod yn Niwbwrch, cyn 1750, un gwehydd matiau (*mat weaver)* a dau gariwr matiau (*mat carriers*). Yn ddiweddarach yn yr un ganrif enwir "plethwr gwellt" a gwneuthurwr ysgubau.

20 Gweler *Cymru* (1908).Awgryma Owen Williamson mai tlodi pobl Niwbwrch a barodd iddynt droi at y diwydiant hwn:

"I'w llenwi nid oedd lluniaeth
Ond trist gynhaeaf y traeth."

Gellir yn deg dybied bod defnydd yn cael ei wneud o'r morhesg mor gynnar a theyrnasiad Elizabeth (1588 - 1603) beth bynnag, onide paham yr archodd hi nad oedd y morhesg i'w dorri.[21]

Defnyddid y matiau fel gorchudd dros deisi gwair ac d, am ysbaid cyn eu toi, ond erbyn heddiw, ychydig iawn sy'n gwneud dim â'r morhesg. Mae tai gwair mor lluosog yn awr nes lleihau gwerth y matiau a'r rhaffau. Hefyd, yn amser y cynhaeaf morhesg, mae'r tywod yn cael ei gynhyrfu a'i wneud yn rhydd i'r gwynt ei yrru i orchuddio y tir porfa ac i gau tyllau y cwningod.

Pery cynhaeaf y morhesg o Awst i Dachwedd. Gosodid rhannau o'r tywyn, lle y tyfai'r morhesg fwyaf, i wahanol bersonau am dymor y morhesg. Hyd ryw ddeugain mlynedd yn ô1, cyflogid merched i'r cynhaeaf hwn am 1/6 [9p] y dydd a'u bwyd, i hel y morhesg a dorrid, llond llaw ar unwaith, â chryman. Yna gwneid y morhesg yn bentwr, gan ofalu bod pennau isaf y morhesg yn cael eu gosod yn groes ymgroes. Rhwymid y pentwr â chortyn o forhesg a cherid ef i lecyn gwastad ac yno, drwy gydio ym mhennau uchaf y morhesg, ysgydwid ef yn drwyadl fel ag i gael ymadael â'r tywod â'r ffagl ohono. Ar ô1 hynny fe'i trefnid yn ofalus yn bentwr crwn ("gafr"), gan osod y morhesg yn syth i fynny; ychwanegid at y pentwr nes **/91/**y byddai'r gwaelod yn ddigon i'w amgylchu gan y ddwy fraich ar led, a'r pen gan y ddwy law.

Y gwaith nesaf oedd ei adael i aeddfedu - mater o ddwy neu dair wythnos - hyd nes y byddai'r hesg glas yn wyn fel gwair bron. Ar ô1 hynny gosodid y morhesg yn ddau bentwr crwn ar ei hyd ar lawr, gyda phen un pentwr a gwaelod y llall wrth ei gilydd, i sicrhau ei rwymo yn iawn gan gortyn o forhesg. Gelwid y pentwr hwn yn "ysgub"; yna trefnid nifer o bentyrrau wrth ei gilydd i ffurfio *stack*, a doid â ffagl ac a adewid yno nes byddai yn gyfleus i'w gludo adref. Cyn dechrau ei ddefnyddio, rhoddid y morhesg yn syth i fynny mewn dër dros nos, i'w wneud yn ystwyth.

Dyma'r dull o blethu morhesg yn Niwbwrch. Mae'n rhaid i geinciau pleth fod yn anghynifer. Mewn pleth gyffredin o tua thair modfedd o led nifer y ceinciau ydyw un-ar-ddeg. Wyth lath Gymreig (y mae llathen Gymreig yn 40 modfedd) a wna garrai, ac wyth garrai o bleth sydd ddigon i wneud mat gyffredin. Gwneir carrai fawr o dair cainc ar ddeg i wneud yr ymylon, neu'r ochrau, yn gryfion i ddal y priciau a yrrir trwyddynt wrth sicrhau'r gorchudd ar ben tas. Wrth ddechrau'r pleth, cylymir ynghíd gymaint o forhesg ag a ellir ei ddal yn rhwydd rhwng bys a bawd y llaw chwith. Yna gwahenir y sypyn bychan yn geinciau - 11 neu 13 - yn ô1 ansawdd y bleth. Rhoddir morhesgen ynghyd â'r gainc, ar yr ochr dde, a phlethir hi tua'r aswy â thair neu bedair o'r ceinciau nesaf ati yn olynol. Yna gafaelir yn y gainc ar yr ochr aswy, a phlethir hithau yn gyffelyb tua'r dde i gyfarfod â'r hon a blethasid o'r blaen. Rhoddir morhesgen ynghyd â'r gainc dde drachefn, ac felly bob tro, gan blethu yn yr un modd ag y gwnaed ar ô'1 rhoi y forhesgen gyntaf. Bydd y ddwy law ar waith yn barhaus, y naill yn gafael yn y bleth tra bydd y llall yn plethu yr ochr nesaf ati.

"Dywedir y gall un blethu wyth garrai, sef 64 llathen Gymreig, mewn un diwrnod. Clywais am rai merched yn gallu plethu wyth garrai, eu gwnio ynghyd, a

21 *Record of Caernarvon,* p.298

gorffen *mat* mewn diwrnod. Yn yr hen amser byddai tí fel ffatri fechan, lle y gwelid y merched yn plethu, y gër yn gwnio neu yn gwneud ysgubau, y bechgyn yn gwneud tannau, a hyd yn oed y plant lleiaf yn cynorthwyo â'u bysedd bychain cyflym ac yn gwneud llinynau meinion o forhesg i wnio y careiau ynghyd."[22]

Hysbyswyd yr awdur yn 1910 gan y diweddar William Jones, Pen-llyn, fod ei dad wedi dweud wrtho mai Evan Thomas ddechreuodd wneud matiau yn Niwbwrch, a byddai ef yn eu cludo ar ful i Gaernarfon i'w gwerthu. Eraill yn dilyn yr un grefft oedd ei feibion Owen Evans o'r Rhosydd, Sion Evan Thomas o'r Rhenc Newydd, a Hugh Evans o'r Allt-gwta. Ychwanegodd William Jones mai un gainc ar ddeg a geid ymhob pleth, a'r matiau yn mesur pedair neu bum llath o hyd, ac yn lathen a hanner o led. Cofiai ef yr amser pan oedd pris *mat* yn 10*d* [5p]. Gwerthid y rhan fwyaf o'r matiau **/92/**i ffermwyr mewn rhannau eraill o Fôn, ac yn siroedd Caernarfon, Fflint a Dinbych.

"Creiswyr" y gelwid y masnachwyr matiau. Yr oedd gofyn mawr am y matiau yn Amlwch. Deuir o hyd i lawer o bres Cwmni Mynydd Paris ("arian drwg") o bryd i bryd yn y plwyf, yn arbennig felly ymysg hen adfeilion yn y Gwninger-fawr. Yn ô1 cyfrifon wardeniaid eglwysi Llantysilio a Biwmares yn ail ran y ddenawfed ganrif, defnyddid matiau morhesg Niwbwrch at seddau yr eglwysi hyn.

Crefftau &c.

Arfer cryddion, teilwriaid, gofaint &c. yn y wlad ydoedd myned i'r ffermydd i weithio, a'r ffermwr ei hun yn prynu'r defnydd, ac felly hefyd gyda gwniadyddesau. Yn ddiweddarach, deuai'r ffermwr â haearn i efail y gôf, a phan fyddai gweddill, cedwid ef mewn cist ag enw'r fferm arni ar silff yn yr efail. Gwerthid haearn mewn rhai siopau gwledig. "Gwaith y cylchwr oedd llunio'r fuddai a'r corddwr, y noe a'r ddysgl, y cawg a'r cwpan, y cwbl o bren wedi ei lyfnhau ac wedi ei gylchu â chopr."[23]

Nwydd-Redwyr (Smugglers).

Ni fyddai Niwbwrch byth heb ei "Excise Officer" yn y ddeunawfed ganrif, oherwydd yr oedd Llanddwyn yn baradwys i nwyddredwyr, a cheir sôn: am amryw yn "smwglio" yma yn niwedd y ddeunawfed ganrif. "Arhosent ynghwrr y tywyn yn agos i derfyn plwyf Llanddwyn. Un ohonynt oedd William Prichard 'Rallt-gwta (a hen-daid Owen Williamson o du ei fam). Cadwai ddau geffyl a chymerai hwy gydag ef i Gaergybi i redeg halen a nwyddau gwaharddedig eraill o'r Werddon, a'r rhai a gymrai dros Aber-menai i'w gwerthu yn Lleyn. Un o Lannor yn Lleyn oedd ei wraig."[24]

22 *Hanes Niwbwrch*, gan O.W. tud. 83.
23 *Hanes Mon*, gan E.A.W., tud. 25.
24 Llsgrf. O.W.

Morwyr.

Dywedir yr arferai morwyr Niwbwrch yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf ymwisgo gartref, fel ymhob man arall, yn debyg i swyddogion llongau y Cwmniau mawr yn awr. Nid oedd toriad y wisg o'r un ffasiwn yn hollol â gwisg swyddogion yn bresennol, ond yr oedd y brethyn main glâs, y botymau melynion a'r het *Panama* gyda'i ruban hir yn wrthrychau a dynnai sylw ac a enillai edmygedd pob dosbarth o'r trigolion. Beth bynnag am gywirdeb hyn, sicr yw mai yn y blynyddoedd hynny y dechreuodd mynd i'r môr fod yn boblogaidd gyda bechgyn Niwbwrch.[25]

Priodol yma roddi gair o eglurhad mewn perthynas i'r gwahanol ddosbarthiadau o feistri llongau yn y cyfnod hwnnw:

(1) Trwydded meistri llongau bychain y gororau (*coasters*), fel Capten Williams, Aber-menai, a'i nai Capten Jones, Bod-Iorwerth./**93/**

(2) Trwydded a ganiateid i forwr profiadol a ddangosai ei fod wedi gwasanaethu, neu ddilyn morwriaeth, am gyfnod digonol a phenodol. Gallai un o'r dosbarth yma hwylio neu lywyddu "llong fawr" i borthladdoedd tramor.

(3) Yn ô1 deddf a basiwyd yn 1854 ni ellid bed yn gapten ar longau mawr heb fyned drwy arholiadau i ennill trwyddedau isswyddogion yn gyntaf, ac yna arholiad manylach i gael trwydded meistr.

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd unman yng Nghymru a allai gystadlu â Niwbwrch fel magwrfa cynifer o forwyr yn ô1 cyfartaledd y boblogaeth, nac ychwaith mewn cynifer o swyddogion yn ô1 cyfartaledd y morwyr cyffredin.[26] Bron ymhob tí yn y plwyf gwelid mwy nag un llun llong hwyliau fawr ac aelod o'r teulu wedi bod yn morio ynddi. Yn aml ceid darlun mewn olew o'r llong a hwnnw wedi ei wneud, gan amlaf, gan y morwr ei hun.

25 *Hanes Niwbwrch*, gan O.W., tud. 46.
26 *Hanes Niwbwrch*, gan O.W., tud. 50